

CANLLAW I AWDURDODAU LLEOL AR GYFER DETHOL CYNGHORWYR SIR I FOD YN AELODAU O AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL

Rhagair

1. Mae'r canllaw hwn yn darparu fframwaith ac yn pennu egwyddorion allweddol ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch dethol Cyngorwyr Sir i fod yn aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

2. Datblygwyd ei gynnwys ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a thri awdurdod y parciau cenedlaethol eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd y canllaw o gymorth i Awdurdodau Lleol wrth iddynt benodi Aelodau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Fframwaith cyfreithiol

3. O dan Atodlen 2 o Orchymyn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, caiff dwy ran o dair o aelodau awdurdodau'r parciau cenedlaethol eu penodi gan yr Awdurdodau Lleol i gynrychioli buddiannau lleol. Penodir y draean arall gan Weinidogion Cymru i gynrychioli'r budd cenedlaethol yn y parciau.

Mae adrannau 15 ac 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol benodi Cyngorwyr Sir yn ôl cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod Lleol unigol.

Yn ogystal, mae paragraff 2(4) o Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i ba mor ddymunol yw penodi cyngorwyr sydd â wardiau a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y parc perthnasol.

Mae'r darpariaethau cyfreithiol hyn yn creu'r fframwaith ar gyfer ystyried yr egwyddorion canlynol o ran dethol.

Egwyddorion allweddol y broses ddethol

4. Argymhellir y dylid rhoi'r egwyddorion allweddol hyn ar waith wrth ystyried penodi cyngorwyr sir i awdurdodau'r parciau cenedlaethol:

a) Teilyngdod – dylid penodi pob Aelod ar sail teilyngdod, gan ddethol unigolion ar sail eu gallu, eu profiad, eu rhinweddau a'u hymrwymiad mewn perthynas â gwaith strategol awdurdodau parciau cenedlaethol ac ystyried yn llawn ddisgrifiad y rôl ar gyfer aelod o awdurdod parc cenedlaethol (sydd ar gael gan awdurdod y parc cenedlaethol perthnasol). Dylid ystyried yn ddigonol a oes gan y cyngorwyr y sgiliau angenrheidiol i gyfrannu'n effeithiol at lywodraethu da awdurdod y parc cenedlaethol neu a oes modd eu datblygu;

b) Cyfle cyfartal – dylai'r broses ddethol gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion cyfle cyfartal ac ni ddylai fod rhwystrau rhag cynyddu amrywiaeth aelodaeth. Nodir bod hanes o anghyfartaledd rhwng nifer y dynion a menywod mewn awdurdodau parciau cenedlaethol.

c) Tryloywder – dylai'r Awdurdodau Lleol fod yn barod i rannu gwybodaeth â'r prif randdeiliaid am y broses ddethol a ddefnyddiwyd;

d) Ymrwymiad i ddibenion parciau cenedlaethol – yn ogystal ag ymrwymo i werthoedd cyffredinol ac egwyddorion ymddygiad mewn gwasanaeth cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau, dylai'r cynghorwyr dan sylw fod yn ymrwymedig i'r ddau ddiben statudol a dyletswydd awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac yn barod i gyflawni eu dyletswyddau er buddiannau'r parc cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Penodiad i Awdurdod neilltuol yw penodiad i fod yn aelod o awdurdod parc cenedlaethol ac felly bydd angen ymroddiad i gyflawni'n llawn y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r datblygu angenrheidiol i lywodraethu Awdurdod Lleol â diben penodol.

e) Wardiau etholiadol - yn unol â'r ddeddfwriaeth, rhoi blaenoriaeth i ddethol cynghorwyr sydd â wardiau cyfan neu rannol o fewn ffin y parc cenedlaethol perthnasol ddylai fod y nod. Lle y bo'n bosibl, dylid osgoi dethol cynghorwyr y mae eu wardiau gryn bellter oddi wrth y parc.

f) Prif gymunedau parc - wrth ystyried ymgeiswyr, dylid rhoi sylw i ba mor ddymunol yw cael cynrychiolaeth deg ar draws ardal y parc, gan gynnwys ceisio sicrhau bod prif gymunedau'r parc yn cael eu cynrychioli yn awdurdod y parc.

g) Darparu sefydlogrwydd – wrth ddethol Cynghorwyr i fod yn aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol, dylid ystyried a ydynt yn debygol o allu aros yn y swydd gydol y tymor etholiadol. Mae'r gofyn i benodi aelodau newydd yn ystod cyfnod etholiadol yn cael effaith sylweddol ar awdurdodau parciau cenedlaethol.

Presenoldeb

5. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn pennu'r taliadau a wneir i aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol. Ar hyn o bryd, tâl blynyddol, sy'n seiliedig ar gyfraniad o 42 o ddiwrnodau gan aelodau, yw hwn. Disgwylir i bob aelod fod yn bresennol ar gyfer o leiaf 75% o ddigwyddiadau awdurdod parc. Caiff presenoldeb aelod ei fonitro gan bob awdurdod parc a'i adrodd i'r Panel.

Rhoi'r egwyddorion allweddol ar waith

6. Wrth ddethol cynghorwyr i wasanaethu fel aelodau o Awdurdodau'r parciau cenedlaethol, bydd angen i'r Awdurdodau penodi fodloni'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â dethol a sicrhau cydbwysedd rhwng y pwysau cyffredinol a roddir i'r

egwyddorion unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl ym mhob achos i roi'r holl egwyddorion ar waith yn llawn.

Adolygu'r canllaw

7. Flwyddyn cyn etholiadau nesaf y cynghorau sir, bydd cynnwys y canllaw hwn yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a thri awdurdod y parciau cenedlaethol.